



Gwers 12

Dianc



Cyfres Stori Duw

Exodus 12–17

Nod:

Gweld Duw yn gweithredu, fel barnwr, achubwr a gwardwr. A deall hefyd bwysigrwydd cofio gweithredoedd Duw.

Adnodau:

Exodus 12 – 17, Byddwn yn canolbwyntio ar ddwy ran; cyfarwyddiadau'r Pasg, a chroesi'r môr coch. Os yw amser yn brin gellir canolbwyntio ar gyfarwyddiadau'r Pasg yn unig.

Gweithgaredd adolygu:

Gofynnwch i aelodau'r grŵp yn eu tro i feimio pla, heb siarad, tra bo gweddill y grŵp yn ceisio dyfalu pa bla.

Yna gofynnwch y cwestiynau canlynol

Beth oedd pwrpas y plâu? (Duw yn dangos ei hun i Pharo, ac i'r Israeliaid fel Duw sofran/goruchaf, Sydd yn llawer mwy pwerus na Pharo)

Beth oedd Duw'n ei wneud? (dangos mai ei bobl Ef oedd yr Israeliaid, a barnu/cosbi'r rhai oedd wedi eu caethiwo)

Cyfeiriwch hwy at yr amser addoli yr wythnos diwethaf. Er mai barn Duw oedd y plâu, beth oedd Duw'n ei ddangos i'r Eifftwyr? (dangos ei hun iddynt, ac yn wir fe ddechreuodd rhai ei ddilyn 12:38)

Gêm:

Yn sownd mewn caethwasiaeth.

Chwaraewch gem o 'tic'. Mae un person yn Pharo, ac mae ef/hi yn ceisio ticio pawb arall. Mae'r gweddill yn Israeliaid. Mae unrhywun sy'n cael ei 'dicio' yn gorfod sefyll yn stond gyda'i freichiau ar led. Maent yn aros mewn caethwasiaeth nes i Israeliad arall redeg o dan eu breichiau i'w rhyddhau. Wedi i rywun gael ei ddal mewn caethwasiaeth dair gwaith maent allan o'r gêm. Yr enillydd yw'r un sy'n aros i mewn hiraf.

Dywedwch fod stori heddiw am ryddhad rhyfeddol pobl Dduw, nad oedd, fel roeddem ni yn y gêm, yn gallu achub eu hunain.

Darllen yr Adnodau:

Darllenwch Exodus 12: 1–14. Gofynnwch i'r bobl ifanc ddarllen adnod yr un ar lafar, a mynd o amgylch mewn cylch. Gwnewch yn siŵr fod pawb yn dilyn pan nad ydynt hwy yn darllen.

Trafod:

Mae'r cyfarwyddiadau ar gyfer y Pasg yn rhai penodol iawn, gofynnwch i'r dosbarth restru'r gofynion.

Trafodwch ad 14. Pam dybiech chi fod cymaint o bwyslais ar bwysigrwydd dathlu'r wyl hon yn y dyfodol? Pam ei bod hi'n bwysig i'r cenedlaethau i ddod, wybod yr hanes hwn?

Mae'r Iddewon yn dathlu'r Pasg hyd heddiw. Beth sy'n wahanol am ddatliad Cristnogion o'r Pasg? Am beth ydym ni'n cofio?

Gwnewch y cysylltiad am Grist yn fwy amlwg,

drwy ddarllen 1 Corinthiaid 5:7. Mae'r adnod yn cyfeirio at Grist ein Pasg ni. Pam fod Paul yn disgrifio Iesu felna? Ym mha ffordd y mae Iesu'n debyg i oen y Pasg yn ein hanes heddiw? (cafodd yr oen ei aberthu, ac roedd y gwaed ar byrth y drws yn golygu fod Duw'n achub y rhai y tu mewn, ac mae hwy'n cael byw. Yn yr un modd fe roddodd Iesu ei hun yn aberth, ac mae pawb sy'n credu yn Iesu ac yn rhoi eu ffydd ynddo yn cael eu hachub, rhag effeithiau pechod, ac yn cael bywyd tragwyddol)

Gêm:

Er bod Duw wedi anfon 10 pla, ac er bod Pharo wedi gadael i'r Israeliaid adael yr Aifft, wedi iddynt fynd mae'n mynd ar eu hol, i geisio'u caethiwo eto. Chwaraewch 'yn sownd mewn caethwasiaeth' unwaith eto.

Astudiaeth:

Rhannwch y dosbarth yn ddau, gofynnwch i un grŵp ysgrifennu popeth y maent yn ei gofio am hanes croesi'r môr coch (os oes un neu ddau o'r dosbarth yn weddol newydd i'r ysgol sul, ceisiwch wneud yn siŵr nad ydynt yn y grŵp hwn). Gofynnwch i'r grŵp arall i edrych ar Exodus pennod 14, a nodi'r prif ddiwyddiadau. Wedi 5 munud, gofynnwch i'r ddau grŵp ddod at ei gilydd a chymharwch nodiadau'r ddau, gan nodi unrhyw wahaniaethau. Cofiwch fod yn gadarnhaol gyda'r rhai a oedd yn ceisio cofio, mae'n llawer anoddach na'r disgwyl.

Gweithgaredd:

Gweler atodiad 6

Amser Addoli:

Roedd Duw eisiau gwneud yn siŵr fod yr Israeliaid yn cofio ei fod wedi eu hachub o gaethiwed yn yr Aifft. Gan mai Iesu yw'r rheswm ein bod ni'n dathlu'r Pasg, ef yw ein Pasg ni – yr un a fu farw dros ein pechodau, sut y cofiwn ni amdano?

Arweiniwch hwy i drafod gwyliau Cristnogol – y Nadolig, Pasg, Sul y Blodau ayb. A hefyd y cymun, oedfaon ar y sul ayb.

Gweddiwch y bydd Duw yn rhoi cymorth i ni gofio am Iesu a'i aberth, nid dim ond ar achlysuron arbennig ond bob dydd. Amen